GWAHODDIAD I DDIGWYDDIAD IECHYD A DIOGELWCH AR Y FFERM YR AWDURDOD GWEITHREDOL IECHYD A DIOGELWCH (HSE)

Mae'r digwyddiad am ddim a bydd yn sicrhau HSE eich bod yn flaenoriaeth arolygu isel

Rydym yn eich gwahodd i ddigwyddiad Iechyd a Diogelwch ar y fferm ar

Faes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys, LD2 3SY, ar 8fed Rhagfyr 2009
Mae sesiwn y bore yn dechrau am 0915 ac yn gorffen am 1215.
Mae sesiwn y prynhawn yn dechrau am 1230 ac yn gorffen am 1530.
Dim ond am hanner diwrnod y bydd y digwyddiad yn para er mwyn sicrhau y gallwch gwblhau gwaith hanfodol ar eich fferm hefyd. Amgaeir manylion am y sesiwn ac esboniad ynghylch pam y dylech fynd. Ni chodir unrhyw dâl arnoch a darperir lluniaeth am ddim.

Bydd y digwyddiad yn eich atgoffa o'r camau gweithredu sydd angen i chi eu cymryd er mwyn atal pobl rhag cael eu lladd, eu hanafu neu fynd yn sâl ar eich fferm. Bydd hyfforddwyr cymwys yn cynnal arddangosfeydd ymarferol ar sut i osgoi'r achosion mwyaf cyffredin o ddamweiniau a salwch sy'n gysylltiedig â ffermydd. Mae'r rhain yn rhagofalon syml a rhad i'ch diogelu chi, eich teulu, eich cyflogeion ac eraill rhag niwed.

Ar y diwrnod, cewch becyn gwybodaeth am ddim o ganllawiau HSE allweddol. Ond bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau hefyd yng nghwmni ffermwyr a thyfwyr eraill, fel y byddwch yn deall mwy am eich dyletswyddau cyfreithiol.

Cwblhewch a dychwelwch y slip ateb. Neu gallwch gofrestru i ddod i'r digwyddiad drwy anfon e-bost at doug.galvin@hse.gsi.gov.uk. Neu anfonwch ffacs i 02920 263068. A fyddech cystal ag ateb erbyn **3 Rhagfyr 2009** fan bellaf gan fod angen i ni ragarchebu cyfleusterau digonol yn y lleoliad, arlwywyr a hyfforddwyr.

Yn gywir

Ruth Batten
Swyddog Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch

PAM Y DYLECH DDOD I'R DIGWYDDIAD IECHYD A DIOGELWCH

Pam y dylwn boeni am iechyd a diogelwch ar fy fferm?

Mae ffermio yn un o'r galwedigaethau mwyaf peryglus. Caiff rhywun ei ladd mewn damwain ar fferm bron bob wythnos a chaiff tua 1,500 o bobl eu hanafu'n ddifrifol bob blwyddyn. Mae miloedd ar filoedd o bobl eraill yn cael anafiadau eraill neu salwch sy'n eu hatal rhag gwneud eu gwaith arferol. Gall hyn gael cryn effaith ar fusnesau.

Beth fydd yn digwydd yn y digwyddiad?

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn pryderu ynghylch nifer y marwolaethau a'r anafiadau a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar y diwydiant amaethyddiaeth. Felly rydym yn eich gwahodd i ddod i'r digwyddiad Iechyd a Diogelwch hwn am ddim.

Mae'r sesiynau ar wahân (naill ai yn y bore neu yn y prynhawn) yn para tua thair awr. Cyflwynir hyd at chwe arddangosiad ymarferol gan hyfforddwyr cymwys o Wobrau Lantra (y mae llawer ohonynt yn ffermwyr eu hunain) a fydd yn dangos i chi sut i osgoi'r achosion mwyaf cyffredin o ddamweiniau a salwch sy'n deillio o weithgareddau amaethyddol a gwaith cynnal a chadw adeiladau. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal a chadw cerbydau cludo a cherbydau/peiriannau, gweithio ar uchder a mynediad diogel (ee i doeau), codi a chario a phynciau eraill sy'n berthnasol i'r gweithgareddau ffermio nodweddiadol yn yr ardal.

Beth mae ffermwyr eraill yn ei ddweud am y digwyddiadau hyn?

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi cynnal nifer o'r arddangosiadau ymarferol hyn ledled y wlad, i helpu ffermwyr i sicrhau bod eu gweithleoedd a'u gweithgareddau gwaith yn ddiogelach ac yn iachach. O ganlyniad, gall busnesau hefyd fod yn fwy proffidiol. Dywedodd ffermwyr sydd wedi dod i ddigwyddiadau blaenorol eu bod yn ddefnyddiol ac yn werthfawr ac y byddent yn annog ffermwyr eraill i fynd iddynt. Dywedodd 95% y byddent yn mynd i ddigwyddiad tebyg.

Beth yw'r manteision i mi o fynd i ddigwyddiad?

Rydym yn cydnabod bod yn well gan lawer o ffermwyr gael cyngor ymarferol a roddir gan bobl o'r diwydiant ffermio heb deimlo bod bygythiad y cymerir camau gorfodi yn eu herbyn.

Mae mynd i ddigwyddiad yn dangos eich ymrwymiad i fynd i'r afael â risgiau a bydd yn sicrhau HSE eich bod yn flaenoriaeth arolygu isel. Mae HSE yn disgwyl i chi roi'r systemau gwaith diogel a ddangosir yn y digwyddiad ar waith pan fyddwch yn dychwelyd i'ch fferm.

Yn ogystal â'ch helpu i nodi peryglon a rhagofalon cyffredin sy'n berthnasol i'ch ffermydd eich hunain (neu eich atgoffa ohonynt), gallwch ofyn unrhyw

gwestiynau am eich dyletswyddau cyfreithiol, yng nghwmni ffermwyr a thyfwyr eraill. Byddwch hefyd yn cael pecyn am ddim sy'n cynnwys copi o lyfryn cyfarwyddyd cynhwysfawr HSE 'Ffermio Diogel', CD 'hunanasesu' a detholiad o daflenni cyfarwyddyd perthnasol eraill a gyhoeddwyd gan HSE.

Beth os wyf wedi bod i ddigwyddiad ymwybyddiaeth o'r blaen?

Mae'r pynciau a gwmpesir yn newid ac yn cael eu diweddaru'n barhaus, felly os ydych wedi mynychu digwyddiad o'r blaen, gallwn eich sicrhau y byddwch yn dysgu rhagor. Os gwnaethoch fwynhau digwyddiad blaenorol ac roeddech o'r farn ei fod yn werthfawr, yna anogwch ffermwyr eraill i ddod gyda chi. Os na fuoch yn bresennol, yna rhowch wybod i ni pam fel y gallwn eu gwella yn y dyfodol.

Nodwch fod angen i ni wybod y niferoedd a fydd yn bresennol, felly gofynnwch i eraill gadarnhau gyda ni y byddant yn dod.

Beth y dylwn ei wisgo?

Bydd angen i chi wisgo esgidiau a dillad addas gan y cynhelir rhai arddangosiadau yn yr awyr agored a gallai'r tywydd fod yn wlyb, oer, ac ati.

Beth os na allaf ddod ar y dyddiad hwn?

Rydym yn sylweddoli efallai na fydd y dyddiad a ddewiswyd yn addas oherwydd pwysau eraill, ond gobeithio y bydd y llythyr hwn wedi'ch darbwyllo i ddod. Os na allwch ymuno â ni ar y diwrnod ond hoffech gael cyngor gan HSE ar unrhyw faterion iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â gwaith ffoniwch eich Swyddog Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch lleol yn y cyfeiriad ar y llythyr, neu cysylltwch â'n ***Llinell Wybodaeth*** gyfrinachol (Ffôn 0845 345 0055). Ceir rhagor o wybodaeth hefyd ar wefan HSE yn http://www.hse.gov.uk/

CWBLHEWCH A DYCHWELWCH Y FFURFLEN HON I :
YR AWDURDOD GWEITHREDOL IECHYD A DIOGELWCH CYFNOD 1, ADEILADAU'R LLYWODRAETH, TŶ GLAS, LLANISIEN, CAERDYDD CF14 5SH.
Neu gallwch gofrestru i ddod i'r digwyddiad drwy anfon e-bost at doug.galvin@hse.gsi.gov.uk
Neu anfonwch ffacs i 02920 263068

Diwrnod Ymwybyddiaeth Iechyd a Diogelwch ar y Fferm

Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys, LD2 3SY
8fed Rhagfyr 2009

Enw

Enw'r Fferm: _____

Deiliad: ----------

Cyfeiriad: ----------

---

1. Hoffwn fynychu (nodwch pa un drwy roi cylch o amgylch eich dewis)

Sesiwn y Bore (0915)

neu

Sesiwn y Prynhawn (1230)

2. NI fyddaf yn mynychu'r naill sesiwn na'r llall ----------

3. Esboniwch pam na allwch ddod. Os nad ydych yn ffermio mwyach neu os defnyddir y fferm/tir at ddiben arall, rhowch fanylion isod.

.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....
.....

Diolch yn Fawr.

HSE